**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 28 GORFFENNAF 2025 TRWY MS TEAMS (10:00 – 11:00)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees

**Cynrychiolwyr MIAA a oedd yn bresennol:** Gary Baines
Paula Fagan

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru a oedd yn bresennol:** Sean Gaffney

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** David Burley (Pennaeth Busnes), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Shereen Williams o ganlyniad i argyfwng meddygol teuluol. Estynnodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau i Shereen a'i theulu.

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

**3. Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Mawrth a 17 Mehefin**

3.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025 ac fe'u mabwysiadwyd.

3.2 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2025 ac fe'u mabwysiadwyd.

**4. Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol.**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r materion a gododd o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Mawrth a 17 Mehefin 2025 wedi derbyn sylw.

4.2 Yr unig fater a oedd yn weddill oedd hyfforddiant Diogelwch TGCh i'r aelodau a oedd wedi cael ei ohirio nes i'r holl aelodau newydd ac aelodau annibynnol ychwanegol gael eu recriwtio. **Cytunwyd**, gan fod yr holl aelodau newydd wedi cael eu recriwtio bellach, y dylid trefnu'r hyfforddiant cyn gynted â phosibl.
**Gweithredu:** Cymwysterau Cymru / Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/09/25

4.3 Ystyriodd y Pwyllgor y papur a gyflwynwyd ar gyngor cyfreithiol a gafwyd ynglŷn â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth TGCh presennol. Nodwyd bod y cyngor cyfreithiol a gafwyd yn debyg i ganfyddiadau adolygiad MIAA o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

**Cytunwyd** y byddai Paula Fagan yn anfon canfyddiadau adolygiad MIAA o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ymlaen at CDFfC ac y byddai'r nodiadau cyngor cyfreithiol ac archwilio mewnol yn cael eu defnyddio i lywio unrhyw ddiwygiad i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a/neu unrhyw drefniadau cytundebol yn y dyfodol gyda'n cyflenwr TG.
**Gweithredu:** MIAA **Erbyn:** 31/08/25

4.8 O ran yr adroddiad pwyntiau Gweithredu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, cytunwyd i ychwanegu colofn newydd ar gyfer rhif cyfeirnod at y Cofnod Camau Gweithredu Cyfarfod.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/08/25

## 5. Siarter Archwilio Mewnol.

5.1 Nododd y Pwyllgor Siarter Archwilio Mewnol ddrafft MIAA ar gyfer 2025-26 ymlaen. Dywedodd Gary Baines fod dau fater yn weddill yn y Siarter ynglŷn â phwyntiau y byddai MIAA yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys yng Nghylch Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog CDFfC.

5.2 Adroddwyd y gellid diweddaru Cylch Gwaith y PLIA yn rhwydd i gynnwys y pwyntiau a amlinellwyd yn y Siarter. **Cytunwyd** y byddai Cylch Gwaith y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y pwyntiau a amlygwyd yn y Siarter.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/08/25

5.3 O ran y testun y disgwylir ei weld mewn Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, adroddwyd nad oedd gan CDFfC Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, dim ond Cyfarwyddiadau Desg. **Cytunwyd** y dylai CDFfC lunio Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac y dylai'r rhain gynnwys y gofyniad a amlygwyd yn y Siarter.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/08/25

5.4 **Cytunodd** y Pwyllgor ar Siarter Archwilio mewnol MIAA.

## 6. Cynllun Archwilio Mewnol 2025-26 Ymlaen.

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Mewnol a gyflwynwyd gan MIAA. Nodwyd bod y gwaith archwilio mewnol ar y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) wedi'i drefnu ar gyfer 2027-28 a holwyd a fyddai hyn yn ddigon cynnar o ystyried bod angen i reolaethau llywodraethu cadarn fod ar waith cyn gynted â phosibl. **Cytunwyd** y byddai angen i MIAA a'r Prif Weithredwr drafod y mater hwn ymhellach pan fyddai'n dychwelyd.
**Gweithredu:** MIAA / Prif Weithredwr / Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31/07/25

6.2 Esboniodd Gary Baines y byddai MIAA hefyd yn gwneud cryn dipyn o waith archwilio mewnol ar wahân ynglŷn â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP). Esboniodd nad oedd hyn wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol gan ei fod yn brosiect pwrpasol y dyrannwyd diwrnodau archwilio iddo y tu hwnt i gyfanswm nifer y diwrnodau archwilio a gytunwyd yn y contract.

6.3 Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r gwaith archwilio ychwanegol ar y WEIP gael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol i ddangos cwmpas a dyfnder y gwaith

archwilio. **Cytunwyd** y byddai'r gwaith archwilio ychwanegol ar y WEIP yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol.
**Gweithredu:** MIAA **Erbyn:** 31/08/25

6.4 Holwyd pam nad oedd risgiau allweddol fel ymgynghoriadau cyhoeddus a diogelu data wedi'u cynnwys yn benodol yn y Cynllun Archwilio Mewnol. Dywedodd Gary Baines fod risgiau o'r fath yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau, fel y bo'n ofynnol; er enghraifft, mae diogelwch TGCh yn rhan o archwiliadau o Systemau Ariannol.

6.5 Ystyriwyd y dylai Lles Staff gael ei gynnwys yn y cynllun archwilio hefyd o ganlyniad i gyfrifoldebau ychwanegol CDFfC. **Cytunwyd** y byddai Lles Staff yn cael ei gynnwys yng ngwaith archwilio'r Gyflogres ac Adnoddau Dynol.
**Gweithredu:** MIAA **Erbyn:** 31/08/25

6.6 **Cytunwyd** y dylai'r Cynllun Archwilio Mewnol gael ei adolygu yng ngoleuni'r pwyntiau a godwyd a'i ddiwygio, fel y bo'n berthnasol, ond cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun yn ddarostyngedig i'r amodau hyn.
**Gweithredu:** MIAA **Erbyn:** 10/09/25

## 7. Diweddariad ar yr Archwiliad Allanol o'r Datganiadau Ariannol.

7.1 Adroddodd Julie Rees fod cyfrifon drafft CDFfC wed cael eu derbyn ar 25 Mehefin 2025, o fewn yr amserlen gytunedig. Roedd mwyafrif y gwaith archwilio wedi cael ei gwblhau ond roedd rhai materion yn weddill o hyd yn ymwneud â hepgor gwybodaeth am bensiynau ar gyfer un o'r uwch reolwyr, triniaeth gyfrifyddu IFRS16 o gostau les ac amcangyfrifon dadfeiliad ar gyfer les swyddfeydd Parc Cathays. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddatrys y materion hyn a disgwyliwyd y byddai'r cyfrifon yn barod i'w llofnodi yng nghyfarfod y PLIA ar 10 Medi.

7.2 Diolchodd y Cadeirydd i Julie Rees am ei hadroddiad.

## 8. Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dylai camau lliniarol gynnwys sut maen nhw'n mynd i'r afael â'r risg a'i lleihau.
- Dylid asesu effaith camau lliniarol a gwblhawyd ar risgiau a ph'un a ydynt yn dod yn rheolaethau ar ôl eu cwblhau.
- Dylai sicrwydd gael ei fapio i risgiau.
- Dylid pennu amser ar gyfer cyflawni camau lliniaru.
- Dylid cysylltu risgiau â'r Cynllun Archwilio Mewnol.
- Dylid adolygu deiliaid risgiau i sicrhau bod atebolrwydd yn glir.

8.2 O ran y risgiau presennol, roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn:

- Y dylid adolygu Risg CR1 ynglŷn â pherthnasoedd â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon eang, ac y dylid ychwanegu ymgysylltu â rhanddeiliaid y BRhE fel cam lliniarol.

- Bod Risg CR4 ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol yn canolbwyntio gormod ar y BRhE ac y dylid ei hail-lunio'n fwy eang i ymdrin â CDFfC yn fwy.
- Y dylai Risg CR8 ynglŷn â gweithredu'r WEIP gynnwys Rheoli Prosiect y BRhE a'r gwaith Archwilio Mewnol pwrpasol ychwanegol fel camau lliniarol.

8.3 Holodd yr Aelodau hefyd a oedd Risg CR8 yn dyblygu risg a oedd eisoes yn derbyn sylw yng nghofrestr risgiau'r BRhE ac roeddent o'r farn y dylai'r PLIA gael mwy o sicrwydd a diweddariadau gan y BRhE ynglŷn â chynnydd ar y prosiect.

8.4 Cytunwyd y byddai Cadeirydd y PLIA, y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid yn rhoi ystyriaeth bellach i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau ac y byddai drafft arall o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei gynhyrchu.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 20/08/25

## 9. Yswiriant Indemniad.

9.1 Nododd y Pwyllgor nad oes gan Lywodraeth Cymru yswiriant indemniad, a'r rhesymau pam. Disgwyliwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru o hyd ynglŷn â pha gymorth y gallai CDFfC ei ddisgwyl ganddi petai camau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn ei erbyn.

9.2 Cytunwyd y dylai'r mater hwn gael ei godi o dan Unrhyw Fater Arall yng nghyfarfod nesaf CDFfC ar 30 Gorffennaf gyda phapur byr yn amlinellu'r sefyllfa bresennol.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/07/25

## 10. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TGCh.

10.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf. Amlinellodd yr adroddiad ddiweddariadau mwyaf cyfredol y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar fygythiadau, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y bygythiadau cynyddol a gyflwynir gan ddeallusrwydd artiffisial.

10.2 Tynnodd Sean Gaffney sylw'r Pwyllgor at y system sgorio seiberddiogelwch newydd a ddarperir gan Microsoft, sydd bellach yn caniatáu ar gyfer cymharu â sefydliadau eraill o faint tebyg. Roedd hyn yn dangos bod sgôr seiberddiogelwch CDFfC yn sylweddol well na sefydliadau eraill o faint tebyg.

10.3 Holwyd a oedd angen archwiliad ar wahân o seiberddiogelwch. Ymatebodd Sean Gaffney drwy ddweud bod Cyber Essentials ac IASME yn ymdrin â'r gofyniad hwn.

## 11. Cylch Gwaith a Chynllun Gwaith y PLIA.

11.1 Nododd y Pwyllgor y Cylch Gwaith a'r Cynllun Gwaith. Cytunwyd ar y rhain yn amodol ar y newidiadau a gynigiwyd yn y Cynllun Archwilio Mewnol a amlinellwyd yn Eitem 6 uchod.

## 12. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

12.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 29 Mai 2025.

**13. Seiberddiogelwch TGCh Archwilio Cymru.**

13.1 Rhoddodd Julie Rees amlinelliad byr ynghylch cwmpas yr archwiliadau seiberddiogelwch a gynhelir gan Archwilio Cymru a dywedodd fod CDFfC wedi cael ei gynnwys mewn archwiliad seiberddiogelwch llawn a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn ystod 2021. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

**14. Diweddariad ar Adroddiadau Archwilio Cymru.**

14.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru a roddodd fanylion am yr adroddiadau a gyhoeddwyd ganddynt yn ddiweddar.

**15. Rhestr Colledion 2024-25.**

15.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar golledion ar gyfer 2024-25.

**16. Ymarfer Asesu Archwilio Mewnol Blynyddol CDFfC 2024-25.**

16.1 Tynnodd cynrychiolwyr MIAA yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

16.2 Nododd y Pwyllgor ganlyniad Ymarfer Asesu Archwilio Mewnol 2024-25.

**17. Unrhyw Fater Arall**

17.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Medi 2025 am 10:00 a.m..